# Y DINESYDD

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

MEHEFIN 1977

RHIF 40

# Gŵyl y Cyhoeddi

**Er bod nifer mawr o Gymry Caerdydd a'r cylch wedi bod yn pwyllgora'n ddiwyd am gyfnod o flwyddyn, mae'n bosibl nad yw'r rhan fwyaf ohonoch yn gwybod fawr mwy na bod yr Eisteddfod Genedlaethol i'w chynnal yn y brifddinas ym 1978.**

Ond yn fuan iawn bellach fe gawn i gyd ragflas o'r hwyl a'r llawenydd a gaiff miloedd o Gymry ar faes yr Eisteddfod yn Awst 1978. Oherwydd ddydd Sadwrn, Gorffennaf yr ail eleni, fe gyhoeddir yr Eisteddfod gyda holl rwysg a defod Gorsedd y Beirdd, o gylch meini'r orsedd yng ngerddi Bute, tu allan i fur y Castell. Dyma gyfle i ni Gymry Caerdydd i gyflwyno ein gŵyl genedlaethol i drigolion y Brifddinas. A thrwy droi allan wrth y miloedd dyma gyfle i ni hefyd i ddangos i'r ymwelwyr o bob rhan o Gymru y fath groeso twymgalon fydd yn eu disgwyl yn yr ŵyl fawr ei hun.

Yn Seremoni'r Cyhoeddi fe gyflwynir gwaith y pwyllgorau — y Rhestr Testunau — i'r Archdderwydd ar y Maen Llog. Bydd y rhestr, yr un pryd, ar werth i'r cyhoedd. Prynwch gopi, astudiwch ef — mae'r cystadleuthau yn eang eu hapel, a siawns na theimlwch ar eich calon i gystadlu yn yr ŵyl.

Nid gŵyl undydd fydd Gŵyl y Cyhoeddi. Fe fydd yn parhau am dridiau, gan ddechrau gyda chyngerdd y plant ym Mhafiliwn Gerddi Sophia nos Iau. Bydd perfformiad o ddrama Saunders Lewis, 'Siwan', gan Gwmni Theatr yr Ymylon yn Theatr y Sherman nos Wener. Ac yn ddiweddarach nos Wener, am ddeg o'r gloch, yn Theatr yr Arena, bydd rhaglen ysgafn gan yr Urdd dan y teitl: "A Cherddi Eraill". Bydd y cyhoeddi swyddogol am dri o'r gloch brynhawn Sadwrn a diweddglo'r ŵyl fydd cyngerdd arall nos Sadwrn ym Mhafiliwn Gerddi Sophia, y tro hwn gan Gôr yr Eisteddfod a Cherddorfa Gymreig y BBC.

Mae plant yr ysgolion Cymraeg, a phlant ysgolion eraill De Morgannwg yn ymarfer yn gyson, a phlant y ddawns flodau yn edrych ymlaen yn eiddgar at eu rhan nhw yn yr ŵyl. Paratoi ac ymarfer rheolaidd ers misoedd yw hanes y Côr Mawr, ac mae'r arbenigwyr yn proffwydo mai hwn fydd y côr eisteddfodol gorau ers blynyddoedd! Pa ryfedd gydag Alun Guy yn arwain, ac Arwel Hughes, Cadeirydd y Pwyllgor Cerdd yn cynghori ac ysbrydoli.

Llafur cariad yw hyn oll, a gobeithiaf y byddwn i gyd yn dangos ein gwerthfawrogiad drwy gefnogi'r cyngherddau a'r ddrama. Dewch yn lluoedd, dewch yn deuluoedd, dewch â'r plant i weld yr Orsedd yn gorymdeithio o Neuadd y Ddinas drwy'r prif heolydd i Erddi Parc Bute.

Apêl yw'r ysgrif hon am gefnogaeth pob Cymro a Chymraes yng Nghaerdydd, yn Ne Morgannwg a chymoedd Morgannwg Ganol. Gadewch i ni drwy ein presenoldeb mewn cyngerdd, drama a seremoni, dynnu sylw ac atgoffa ein cyd-ddinasyddion, beth bynnag fo lliw eu croen, yn Gymry Cymraeg a di-Cymraeg, mai prifddinas cenedl yw Caerdydd, a'r genedl honno yn berchen ar hanes ac iaith a diwylliant unigryw y gallwn i gyd ymfalchïo ynddyn nhw.

EMYR CURRIE-JONES,
Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith.



*Mr Alun Guy fydd yn arwain Côr yr Eisteddfod yn y Cyngerdd ym Mhafiliwn Gerddi Sophia, Caerdydd, nos Sadwrn, yr ail o Orffennaf.*




## CYFARFOD Y DINESYDD

**Y mae gwahoddiad i unrhyw berson sy'n ymddiddori yn nyfodol papur-lleol Cymraeg Caerdydd a'r cylch i ddod i gyfarfod a gynhelir ar nos Lun, Gorffennaf 18, yn Neuadd Dewi Sant am 7.30. Prif amcanion y cyfarfod fydd trafod sefyllfa bresennol y papur o safbwynt cyllid a dosbarthiad ac ystyried dewis swyddogion ac aelodau newydd ar y Pwyllgor Rheoli. Croesewir trafodaeth ar unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r ymdrech i gadw'r papur yn fyw ac iach.**

## Damwain Alaethus

Sioc i Gymru gyfan oedd clywed am farwolaeth sydyn, trwy ddamwain, Mrs Olwen Walters, Rhiwbina, a hithau'n glanio mewn eroplen Rwsiaidd ar Ynys Ciwba. Cydymdeimlwn yn ddwys â Llew, ei gŵr a hefyd Iolo ac Eiryl yn eu colled a'u galar.

Boneddiges swil oedd Mrs Walters, yn barotach ei gwên na'i gair — ond mewn sgwrs â hi, deuech i wybod yn syth am ddyfnder ei diwylliant ac ehangder ei gwybodaeth. Roedd yn deithwraig heb ei hail, yn dal eroplen a oedd yn anelu am bellteroedd byd mor ddiffwdan â phe bai'n dal bws i ganol y ddinas. Ei theithio oedd ei hobi, a dychwelai o bob taith yn drymlwythog o brofiadau — a gallai eu rhannu ag eraill mewn ysgrif neu ddarlith gyda gallu anghyffredin. Bu'n ysgrifennu am fisoedd i'r Cymro a chyhoeddodd nifer o straeon i blant ac i oedolion. Gedy fwlch mawr ar ei hôl.

# GOLYGYDDOL

**Diolch i bawb sydd wedi ysgrifennu atom y mis hwn — mae'n braf iawn cael colofn lythyron lawn. Hyd yn oed os na wnaeth y Dyn Dwad ddim byd arall, fe ysgogodd rai o'n darllenwyr i gyfrannu o'r diwedd, a gobeithio y byddant yn para i wneud!**

**Yn awr fod nifer o bobl yn honni eu bod yn poeni am ddyfodol *Y Dinesydd*, ac eraill yn cwyno fod y papur wedi syrthio i ddwylo clic bychan nad yw'n gwir gynrychioli cymdeithas Gymraeg Caerdydd fel y mae hi, tybed a oes gobaith cael mwy o bobl i ymddiddori'n weithredol yn y gwaith o gynhyrchu'r papur hwn? Nid apêl am arian mo hyn, am unwaith — ond apêl ar i chi'r darllenwyr i chwarae rhan adeiladol yn y dyfodol o safbwynt cynnwys y papur, ei ansawdd a'i gylchrediad.**

**Fe gynhelir cyfarfod agored yn Neuadd Dewi Sant nos Lun, Gorffennaf 18fed am 7.30p.m. ac y mae yna wahoddiad cynnes i BAWB sydd â diddordeb yn *Y Dinesydd* i ddod yno i gynnig syniadau a chymorth ymarferol. Mae hi'n hen bryd i'r papur hwn ehangu ei seiliau a chael cefnogaeth weithredol ehangach gan drigolion Caerdydd yn hytrach na pharhau i fod yn faich trwm ar ychydig o ysgwyddau.**

**Felly, os na ddewch chi'r darllenwyr yn eich cannoedd i'r cyfarfod hwn, yna fe'n gorfodir ni, y pwyllgor rheoli presennol, i'r casgliad nad oes gennych chi ddim diddordeb mewn gweld *Y Dinesydd* yn parhau, neu ddim ots o gwbl pa fath o bapur, o ba safon ac o ba safbwynt fydd *Y Dinesydd* yn y dyfodol. Eich papur *chi* yw'r *Dinesydd*; felly, os am bapur lleol wrth eich bodd, dewch i leisio eich barn ar y 18fed!**

# Help!

*ANNWYL OLYGYDD,*

*All rhywun fy helpu i? Ar ddydd Mercher, Ebrill 27 roeddwn yn gwrando ar y newyddion o Lundain ar y donfan ganol, a dilynwyd gan rhaglen o detholiad o recordiau gan James Williams. Dechreuodd hwn a barhodd am rhai munudau ond yna, ac yn sydyn ac heb rhybudd, newidiodd y rhaglen i "Just a minute" — rhaglen dda arall.*

*Ceisiais dod o hyd y rhaglen o recordiau ar V.H.F. ac wedi amser byr, mi ffeindiais fe ond roedd rhaid imi symud y nob ar y radio er mwyn cynyddu maint y sŵn. Hynny yw, mae'r maint o sŵn sy'n dod o'r radio ar V.H.F. yn llawer llai na hynny sy'n dod o'r donfan ganol. Sylwais yr un problem? Os yw'n amhosibl i osgoi y problem, mae'n dipyn anffodus i bobl sy'n gwrando ar rhaglenni yn yr iaith Gymraeg achos pwysig iawn gallu clywed pob air yn glir, oherwydd mae'r Gymraeg yn cael ei siarad yn gyflym iawn a gyda sawl treigliad. Mae'r 2 peth yma yn achosi anhawsterau mawr i bobl — yn enwedig dechreuwyr — sy'n arferol i'r eglurhad o ieithwedd a'r gyflymder anfrysiog o rhaglenni yn Saesneg.*

*Beth ydy'r meddyginiaeth am y dyfodol? Ai prynu radio newydd neu gwrando ar rhaglenni Saesneg y ddylwn?*

*Eiddoch yn ffyddlon,*

HUGH POWELL,
Cyncoed,
Caerdydd.

# Perlau'r Plant

*ANNWYL OLYGYDD,*

*Rwy wedi bod yn 'bygwth' sgrifennu atoch ers tro, ac felly dyma benderfynu i fynd ati o ddifri o'r diwedd.*

*Yn hytrach na beirniadu sothach yr iob o gog 'na, ga'i gynnig rhywbeth adeiladol fydd, rwy'n siwr yn apelio at fwy o bobl, sef colofn "Perlau'r Plant".*

*Fel y gwyddoch, mae llawer iawn o wirionedd yn dod i'r amlwg trwy ddiniweidrwydd plentyn ac mae'n siwr y cewch ymateb brwd i golofn o'r fath. Er enghraifft:*

*1) (Sgwrs rhwng Dysgwr a Chymro ar fin dechrau ym Mryntaf.)*

*Dysgwr: "You've got to behave."*

*Cymro: "What's a have?"*

*2) Mam yn ceisio lladd cleren sy'n disgyn ar dorth o fara. Plentyn 4 oed yn dweud, "Chwarae teg, efallai fod eisiau bwyd arni!"*

*3) Plentyn yn ei dymor cyntaf ym Mryntaf yn dweud, "Mami, mae llawer o 'Chinese' drws nesa inni, ond mae Alun yn dweud taw Blackistanis ŷn nhw"!*

*4) Ar ôl derbyn coron y jiwbili fel rhodd, medde'r plentyn pum mlwydd oed, "Drychwch, dyna dda, mae rhif ffôn y Frenhines arno fe — un, naw, saith, saith."*

*Yn ddidwyll iawn,*

SIAN THOMAS,
Llandaf, Caerdydd.

**(Beth amdani, ddarllenwyr? Croeso i bob cyfraniad. GOL.)**

# Sbectol Gam?

*ANNWYL OLYGYDD,*

*Hoffwn longyfarch y sawl sy'n llechu mor gyfleus y tu ôl i ffugenw Sbectol Siân ar ei sylwadau bachog a deifiol am Gôr Aelwyd Caerdydd ('Tafodau Tin',* **Dinesydd** *Ebrill/Mai 1977): còr sydd, fel mae'r gohebydd mor gywir yn anwybyddu, yn canu dim oll ond caneuon gwerin Cymraeg a maes llafur yr Eisteddfodau.*

*Treiddgar i'r eithaf oedd yr hyn a ddywedwyd am gyngerdd yng Nghastell Caerdydd gerbron cynrychiolwyr o'r Farchnad Gyffredin; anheg yma wrth gwrs fyddai edliw nad yw Golygydd y papur hwn yn anghysylltiedig â Chyngor Celfyddydau Cymru — Mudiad y bydd y Mri Ionesco a Debré yn fythol ddiolchgar iddo.*

*Diolch hefyd i'r gohebydd am ei esboniad paham na dderbyniodd côr arall y gwahoddiad i ganu yn y Castell. Yn wir, mae ei driniaeth o'r gwirionedd llawn mor ganmoladwy â chynildeb ei ystyriaeth o ffeithiau cystal bob tamaid â llithrigrwydd ei ymadrodd; a'i ddi-dueddwch mor glodwiw â gwreiddioldeb ei ddelweddau.*

*Dïau yr hoffai ambell un sy'n derbyn sylw gan yr athrylith hwn gael ateb mewn cyfryw ddull, ond, ysywaeth, chewch chi ddim taro rhywun sy'n gwisgo Sbectol.*

*Yn ddiffuant,*

GARETH GLYN,
Victoria Park,
Caerdydd.

Carai'r Bwrdd Golygyddol gydnabod yn ddiolchgar gymorth ariannol Cymdeithas Gelfyddydau De-Ddwyrain Cymru.

# O'R POST

*AT OLYGYDD*
**Y DINESYDD,**

*"Rhydd i bob dyn ei farn, ac i bob barn ei llafar." Dyna arwyddair y papur wythnosol fyddai'n ymddangos yn fy hen ardal (ac sydd yno o hyd gyda llaw). Ond gobeithio'n wir mai nid o fy hen ardal i yn y gogledd y daw'r "dyn dwad" yna sy'n ysgrifennu i'r Dinesydd. Mae cywilydd gen i feddwl ei fod yn dod o unman yn y Gogledd. Diolch fod gan un gweinidog yng Nghaerdydd ddigon o wrhydri i sefyll i fyny'n gyhoeddus i wrthwynebu'r fath sothach — a'r canlyniad — cael ei ddifrio ymhob rhifyn sydd wedi ymddangos er hynny. A diolch hefyd i fachgen ieuanc o Ysgol Rhydfelen ddatgan ei farn yntau'n glir — a'r un canlyniad — rhywun yn ei ddifrio yntau hefyd.*

*Ydych chi, mewn gwirionedd Madam Golygydd, yn*

*ANNWYL OLYGYDD,*

*Er hytrach yn hwyr yn y mis, llwfrdra fuase yn peri i mi beidio anfon atoch. Blin iawn gennyf ddweud y 'blas cas' adawodd y rhifyn diwethaf i mi a llawer o'm cyd-Gymry, hyn er cydnabod yr eitemau da oedd yno. Mae'n syn fel y mae naws y tudalen glawr a dyddiadur y 'Dyn Dwad' yn gallu amharu ar y cyfan rhyusut.*

*P'run ai a ddaw y tywysog i'r Eisteddfod neu beidio, mae'r agwedd o wawd yma yn mynd i wneud mwy o niwed lawer i'r rhai sydd yn "cloffi rhwng dau feddwl" — wedi bod o Gymru ac yn cynhesu o'r newydd at eu mamwlad drwy'r Ysgolion Meithrin a'r ysgolion nos.*

*Roedd ishe mwy o bwyslais siwr o fod — pam na chaiff y Steddfod le yng "nghalon" y ddinas yn lle Pentwyn, fel bod pobol y strydoedd yn cael eu denu i fewn a gweld am y tro cyntaf fod yna'r fath beth a Chymru Gymraeg? Dyna golli cyfle!* (Yr union bwynt a wnaethpwyd gennym yn y ddadl wreiddiol yn erbyn Pentwyn — gweler rhifynnau Rhagfyr a Ionawr/Chwefror. GOL.)

*Ac am dudalen y Dyn Dwad —* **Gwarthus!** *Hoffwn fod wedi danfon hanes "Cyhoeddi'r Ŵyl" i'r bechgyn yn Lloegr ond sut — a'r dudalen gefn a'r fath gynnwys? Yr ateb y gallwn ei ddisgwyl yn syth fyddai — "popeth yn dderbyniol nawr te, ond iddo fe fod yn 'Welsh, chware teg'!" (gan ymddiheuro i Dafydd Iwan).*

*Pam tybed na fuase'r rhai sydd yn cefnogi'r bachgen yma yn ei wahodd i'w cartrefi*

# Y DYN 'NA 'TO!

*meddwl mai dyma sydd eisiau ar Gymru? Mae digon o hyn yn cael ei ddangos ar y teledu ac mewn cylchgronnau Saesneg ac Americanaidd. Os ydych am fenthyca, o gwbl oddiarnynt, edrychwch am rywbeth gwerth ei fenthyca, ond rwyn hollol sicr fod gennym ni yng Nghymru ddigon o ddawn, adnoddau a thraddodiad ein hunain heb fynd i fenthyca dim oddiar neb arall.*

*Roedd y syniad o gael papur fel* **Y Dinesydd** *yng Nghaerdydd yn un gwych, ac am dro byd yr oedd yn werth ei ddarllen o glawr i glawr. Mae llawer iawn o bethau da ynddo o hyd, a byddai'n drueni o'r mwyaf i chi golli cefnogaeth i'r papur gan fwyafrif o bobl y ddinas am eich bod yn gostwng eich safonau ac yn derbyn erthyglau fel rhai'r dyn yna sydd â chlobyn o sglodyn ar ei ysgwydd am ryw reswm neu'i gilydd. Oes ganddo swydd tybed? Beth pe bai o'n sgrifennu dipyn am ei waith i ni gael gweld ydio'n meddwl am rywun arall heblaw ef ei hun weithiau! Mae rhyw ddaioni ymhob dyn — tybed beth yw ei ragoriaethau o? Pryn bynnag, roedd y lanledi yna'n eitha reit yn dangos y drws iddo, a gobeithio nad oes yr un lanledi arall wedi agor hyd yn oed gil ei drws iddo chwaith.*

*Rwyn mawr hyderu fod cannoedd wedi sgrifennu atoch y tro hwn, ac y gwnewch gyhoeddi* **pob un** *llythyr sydd yn datgan barn am erthyglau'r dyn dwad.*

*Mi hoffwn pe bai gennyf y ddawn i sgrifennu, ond rhaid bodloni ar hyn.*

SUSIE EVANS,
Tŷ Gwyn,
Wenvoe, Caerdydd.

---

*a rhoi gwir groeso Cymraeg iddo, yn hytrach na dibynnu ar rhes o dafarndai'r ddinas a'r clybiau nos?*

*Gyda llaw — efelychu'r Saeson ry ni yn y pethau hyn hefyd — a dull y cyfandir — yn hytrach na phwysleisio'r dull Cymraeg naturiol — a chadw'r Sul!*

*Ychydig sylwadau sydd yn blino nyrs fach 'hen ffasiwn' — o'r 'Heath' hefyd!*

M. JAMES (SRN),
Y Rhath, Caerdydd.

# Penbleth

*ANNWYL OLYGYDD,*

*Mae'n dda gweld y serial "Dyddiadur Dyn Dwad" yn cael ei argraffu pob mis yn eich cylchgrawn ac mae'n ddiddorol darllen rhai o'r beirniadaeth a ddaeth o'i herwydd. Tybed pa faint o erthyglau sy'n achosi cymaint o gwrthwynebiad?*

*Imi, fel dysgwr, mae'r erthyglau yn ddiddorol ac yn bwysig gan fod:-*

*1) Y stori'n cael ei sgrifennu mewn tafodiaith — o rhywle yn y Gogledd, rwy'n disgwyl.*

*2) Mae'n cael ei sillafu fel y siaredir a gallaf gweld sut mae'r geiriau yn cael eu ynganu yn arferol.*

*3) Mae yna lawer o eiriau newydd nad ydyn mewn geiriaduron safonol, a mae'n anodd dod o hyd i siaradwyr sy'n gwybod ystyron yr holl eiriau.*

*4) Mae'r chwedl yn symud yn gyflym a chyda hiwmor.*

*Gobeithio y byddwch yn para gyda'r Dyddiadur ond ga i awgrymu rhai bethau er mwyn cynorthwyo y dysgwyr a'r bobl o ardaloedd arall y wlad i'w deall fe yn llwyr:*

*a) Dylech rhoi esboniad o eiriau tafodieithol*

*b) Dylech rhoi disgrifiad bychan o'r ardalau lle mae'r tafodiaith yn cael ei siarad.*

*Amgaeaf rhestr bach o eiriau sy'n rhoi trafferth imi (***Dinesydd** *Ebrill/Mai — rhif 39). Ydy'n posib rhoi tipyn o gymorth neu cynghor ble alla'i cael yr hysbysrwydd?*

*Yn ffyddlon,*

HUGH AP AIFOR,
Glan Llyn, Caerdydd.

(Os gwnewch chi anfon eich cyfeiriad llawn ataf, fe ysgrifennaf atoch i egluro'r holl eiriau ar eich rhestr ac ateb eich cwestiynau eraill. GOL.)

# Cofio Glyndwr

*ANNWYL OLYGYDD,*

*Cefais i lythyr oddi wrth Mr Malcolm Pryce (Rosemount, NEWTOWN, Powys) am y cynlluniau i godi arian am cofgolofn Owain Glyndwr yng Ngogledd Cymru. Yr oedd Mr Pryce yn dweud nad oes neb eto o'r De wedi cyfranu at y gwaith. Mae £280 yn eisiau, ond mae ganddo £80 yn barod. Fe fydd yn biti mawr os neb yn ein rhan ni o Gymru wedi rhoi dim tuag ato, felly dyma cyfle da i'ch darllenwyr i wneud rhywbeth i cadw rhan o'n hanes yn byw ac yn llygad pawb. Beth am roi pris peint i gof Owain?*

*Yr eiddoch yn gywir,*

J. BUTLER (Dysgwr),
Bargod, Cwm Rhymni.

**Bydd y rhifyn nesaf o'r *Dinesydd*, sef rhifyn GORFFENNAF/AWST yn ymddangos ar Orffennaf 29ain. Deunydd erbyn GORFFENNAF 18 fan bella, os gwelwch yn dda. Danfoner at Golygydd *Y Dinesydd*, 25 Heol Ilton, Penylan, Caerdydd.**

# CYNNIG ARBENNIG!

**O nawr hyd Orffennaf 16eg bydd arddangosfa ddiddorol dros ben i'w gweld mewn tri lle yng Nghaerdydd; gellir gweld "Printiau ar gyfer y Cyhoeddi" yn ORIEL (Heol Siarl) ac yn siopau David Morgan a Maskreys.**

Pwrpas yr arddangosfa fydd dathlu'r Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 1978, a chodi arian ar gyfer y Steddfod hefyd. Oherwydd bydd cyfle i brynu gwaith a arddangosir, sef printiau gwreiddiol o ddarluniau gan 24 o arlunwyr sydd naill ai'n byw yng Nghaerdydd neu sy'n dal cysylltiad â'r brifddinas, a bydd yr elw yn mynd tuag at ddarparu gwobrau yn Adran Gelfyddyd Gain Eisteddfod 1978.

Bydd y printiau mewn argraffiad cyfyngedig o 35 o bob un, wedi eu rhifo a'u harwyddo gan yr arlunwyr, ac fe fyddant ar werth am rhwng £20 a £30 yr un. Cyfle gwych felly i ddod yn berchen ar brint gwreiddiol hardd a helpu Steddfod 1978 yn sylweddol ar yr un pryd — peidiwch ag oedi. Ewch ar unwaith i weld yr arddangosfa, ei mwynhau ......a phrynu!

# Dathlu Priodas

Ar dydd Sadwrn, y degfed o Fehefin, gyda'r parchedigion Haydn Thomas ac Alan Green yn gweinyddu, priodwyd Beti Wyn, merch Richard a Nia Hall Williams a Ceri Thomas, mab Lloyd a Nel Thomas o Crawley, swydd Sussex ond gynt o Faesteg. Mr Bill Thomas gynt o Heol San Mihangel ond nawr o Landre, Aberystwyth, oedd wrth yr organ.

Cyfarfu'r pâr ifanc tra'n fyfyrwyr yn Aberystwyth, yng Ngholeg y Brifysgol, a bwriadant ymgartrefu yn Llundain. Yno, bydd Ceri yn gweithio gyda'r Uned Cyflogau Isel a Beti Wyn gyda Chyngor y Defnyddwyr. Mae Beti Wyn wedi bod mewn swydd gyffelyb yng Nghymru ac ar foreau Gwener gellid clywed ei llais ar y radio yn sôn am brisiau nwyddau. O hyn ymlaen, fe fydd ganddi ddiddordeb mwy personol o lawer mewn prisiau!

Chwaraeodd gwreiddiau ran amlwg yn y briodas hon. Fe briodwyd hen nain Ceri a hefyd nain Beti Wyn yn yr un capel, Salem.

Dymuna'r *Dinesydd* bob lwc i'r pâr ifanc ar gychwyn eu bywyd priodasol.

# Croeso'n Ôl

Mae'n hyfryd gweld John Watkin a'i deulu'n ôl am rai dyddiau o Brwnai. Mae John yn yr ynys fel cynhyrchydd teledu ymgynghorol, a bydd yn dychwelyd i Gymru i fyw ymhen rhai misoedd eto.



# TUDALEN Y DYSGWYR

*Gan fod John Albert yn Vermont y mis hwn, wrthi'n dysgu Cymraeg i'r Americanwyr, dydy e ddim wedi gallu casglu newyddion i'r dysgwyr y tro hwn. Ond mae'n siwr y bydd ganddo fe bentwr o hanesion am Wlad yr Ianc yn y rhifyn nesa!*

### EICH LLYTHYRON

*Yn y cyfamser, diolch yn fawr i'r holl ddysgwyr sy wedi ysgrifennu at* Y Dinesydd *(gweler* O'r Post, *tud. 2 a 3). Daliwch ati — mae'n dda iawn clywed oddi wrthych.*

### Y CYHOEDDI

*Cofiwch am y digwyddiad mawr ddechrau mis Gorffennaf pan fyddwn yn Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol 1978 yma yng Nghaerdydd. Drama'r Cyhoeddi yw SIWAN gan Saunders Lewis (gweler yr erthygl ar y dudalen hon) a gellwch weld hon nos Wener, Gorffennaf 1af. (Ac os na fyddwch wedi deall pob gair ohoni bryd hynny, gellwch fynd nôl nos Sadwrn i weld perfformiad Saesneg o'r un ddrama gan yr un cwmni, sef Theatr yr Ymylon!)*



*Ian Saynor fydd yn cymryd rhan Gwilym Brewis yn SIWAN, drama Saunders Lewis, sydd i'w llwyfannu yn Theatr y Sherman, Caerdydd nos Wener, Gorffennaf y cyntaf fel rhan o Ŵyl Gyhoeddi yr Eisteddfod Genedlaethol.*

## DRAMA'R CYHOEDDI

Pedwar cymeriad yn unig sydd yn Siwan, drama Saunders Lewis, a ddewiswyd i'w pherfformio yn ystod Gŵyl Gyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd, gan Gwmni Theatr yr Ymylon.

Y ddau brif Gymeriad yw Llywelyn Fawr, a'i wraig Siwan, sy'n ferch i Frenin Lloegr. Prin y mae angen cyflwyno Stewart Jones, a fydd yn chwarae rhan Llewelyn Fawr. Mae ef wrth gwrs yn adnabyddus fel Ifas y Tryc ac ugeiniau o gymeriadau eraill. Fe chwaraeir rhan Siwan gan Iola Gregory, yr actores o Aberystwyth sy'n gynfyfyriwr o Goleg Cerdd a Drama Cymru yng Nghaerdydd.

Un arall sy'n gyn-fyfyriwr o'r Coleg hwnnw yw Ian Saynor. Mae ef yn dod o Dreffynnon yng Nghlwyd, ac yn nrama Saunders Lewis fe fydd yn chwarae rhan Gwilym Brewys.

Y pedwerydd cymeriad yw Alis, llawforwyn i Siwan, ac yn chwarae'r rhan honno bydd Marged Esli sy'n dod yn wreiddiol o Walchmai ac sy'n awr yn byw yng Nghaerdydd.

Hugh Thomas fydd yn cynhyrchu.

ENWOGION CYMRU

## 3. Saunders Lewis

**Mae pob Cymro wedi clywed sôn am Saunders Lewis, ac mae e'n adnabyddus mewn llawer gwlad y tu allan i Gymru. Erbyn hyn, mae e dros ei 80 oed, ac yn byw ym Mhenarth. Does dim llawer o bobl yn amau mai Saunders Lewis ydy Cymro mwya ein canrif ni, ac mae e'n enwog fel beirniad llenyddol, fel dramodydd, ac fel gwleidydd.**

Yn ystod y Rhyfel Byd Cynta, pan oedd e yn y fyddin yn Ffrainc y daeth e i deimlo ei fod e'n Gymro, ac i Ffrancwr mae e'n teimlo'n ddyledus am hyn. O'r tu allan i Gymru daeth e i deimlo ei fod e'n Gymro, ac yno daeth e i weld fod Cymru yn werth ei charu. Does dim yn od yn hyn, achos mae llawer ohonoch chi, y Cymry sy'n dysgu Cymraeg, yn dangos mwy o gariad at eich iaith a'ch gwlad na llawer ohonon ni, y rhai sy'n gallu siarad yr iaith. Erbyn hyn, rydyn ni i gyd yn Ewropeaid, ond mae Saunders Lewis wedi teimlo felly ers llawer blwyddyn

Does dim lle yn yr erthygl hon i dechrau sôn am ei waith mawr, ond erbyn hyn, does dim rhaid gwneud hynny achos mae'r llyfr — 'Introducing Saunders Lewis' yn rhoi cyfle i bob Cymro di-Gymraeg ddarllen beth mae llawer o wŷr amlwg yng Nghymru wedi ei sgrifennu amdano. Mae'r llyfr hefyd yn dangos ychydig o'i farddoniaeth, a thair o'i ddramau. Wrth ddarllen y llyfr, fe gewch chi gyfle hefyd i ddarllen ei araith yn y llys yng Nghaernarfon ym 1936, a'i ddarlith radio ar Dynged yr Iaith ym 1962. Yn y ddarlith radio hon, mae e'n dweud yn glir mai trysor mwya Cymru ydy'r iaith Gymraeg.


Yn ôl Saunders Lewis, mae'r iaith Gymraeg yn gallu cyfrannu llenyddiaeth i Ewrop gyfan, ac mae e wedi profi hynny yn ei fywyd ei hun.

MALDWYN JONES

GEIRFA

adnabyddus — familiar, well-known
beirniad llenyddol — literary critic
gwleidydd — politician
Y Farchnad Gyffredin — the Common Market
tynged — fate
cyfrannu — contribute


WENALLT —
Y CWMNI AROBRYN



Ymlaciwch yn un o'n cerbydau moethus 20-51 sedd

CERBYDAU WENALLT

(Perchennog J.M. CROOKES)

SWYDDFA DOCYNNAU
Ffôn Caerdydd 31174

(Gwasanaeth 24 awr)

WHITTLE ROAD, LECKWITH ESTATE, CAERDYDD.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlir â John Evans, a'r teulu, Radyr, yn ei brofedigaeth ddiweddar o golli ei dad — un o bobol mwyaf poblogaidd ei ardal, Tregaron, lle'r adnabyddid ef fel Ianto Ifans. Gŵr a ymhyfrydai yn y campau oedd Mr Evans, ac roedd yn feistr ar chwarae snwcer. Does ryfedd fod John wedi ymddiddori ym myd y bêl.

Yn ddiweddar, bu farw Mr D.H. Thomas, Heol St. Ina, ac aelod selog o gapel Heol y Crwys. Cydymdeimlwn â'i weddw a hefyd â'i ferch, Mrs Vera Smith a'i theulu, 12 Heol y Felin, Rhiwbina, yn eu profedigaeth.

Yn ddiweddar, ac yn frawychus o sydyn, bu farw offeiriad eglwys Llanafan, Ceredigion, ac yntau'n ŵr ifanc. Cydymdeimlir â'i frawd, y Dr. Ben Thomas a'i deulu, Heol Llandennis yn eu profedigaeth.

HAYDN LEWIS

Carem oll gydymdeimlo â'r Parch Haydn Lewis, Llandaf yn ei brofedigaeth chwerw. Diolch iddo ar adeg fel hon am allu cyfrannu cerdd i'r *Dinesydd* (Gweler *Y Fabilon Hon*, tud. 10).

## COLOFN SBECTOL * SIAN

### CODI TESTUN

Dyna wythnos cyfarfod â hen ffrindiau, gwisgo crysau T syfrdanol a chymharu ambarels wedi mynd unwaith eto, a phawb yn mynd ati i grafu'r mwd o'i welingtons yn barod am Wrecsam neu Steddfod nesaf yr Urdd a gynhelir ar faes y Roial Sgwelch yn Llanelwedd.

Wrth son am hen ffrindiau, sylwais ar arwydd yn ffenestr siop ricriwtio'r Llu Awyr yn y dre yn ein hannog i "Meet Exciting People — new job, new friends". Roedd gennyf awydd ychwanegu "and new enemies!"

### CODI SPÎD

Welsoch chi fen newydd Oriel ar y maes? Siop ar olwynion ydy hi, ac wrth edrych ar yr arwydd hwn ar ei hochr, rwy'n siwr fod displê yr Oriel Air Force yn werth ei weld!

### CODI LLWY

Roedd y lori lyfrau yn wynebu stondin hufen ia Canolfan Caerdydd. Fe glywsoch chi son am firi'r tybiau Jiwbiliaidd, neu Jiwbiledig, mae'n debyg. Ysywaeth, chydig iawn o newyddion ddaeth o enau aelodau'r pwyllgor am y busnes, er mae'n siwr nad oeddynt mor "tight-lipped" wrth dorgladdu i'r hufen ia brenhinol gyda'u rhawia bach pren.

### CODI GWYDRYN

Dyna fi wedi son am y J...... — chi'n gwybod beth, a finna wedi bwriadu cadw'n glir o'r testun a chanolbwyntio ar Steddfod yr Urdd. Ond chwarae teg hefyd, sut yn y byd mawr y mae disgwyl i mi son am Max Boyce yn tynnu'r enw buddugol yn raffl y Steddfod ddydd Sadwrn gydag un llaw ar ôl iddo godi gwydryn bach a dymuno "Iechyd Da i'r Frenhines" o Gastell Caerdydd, nos Fercher, gyda'r llall?

### CODI ARIAN

A phwy fedr anwybyddu'r hwyl a'r miri ar ôl gweld y darn isod yn ein papur "cenedlaethol"?

THE programme of events to support the Queen's Jubilee Fund (Wales) is:

ing competition, Cardiff Castle.

JULY 2

National Eisteddfod Proclamation Ceremony, Cardiff.

JULY 3

Welsh Symphonic Band Association's massed band concert, Market Hall, Brecon.

JULY 3-4

Tennis: Wales v. England men's International.

JULY 17

Civic service and procession Cardiff Castle.

JULY 19-21

Royal Welsh Show, Builth Wells.

JULY 22

The Prince of Wales attends a pony trekking rally at Tregaron, Dyfed, and visits villages in the area.

Mae'n debyg y bydd casgliad "Arian" ar ôl seremoni'r Orsedd!

### CODI CANU

Dewisodd Is-bwyllgor Cerdd Steddfod Caerdydd ddwy gân i'w canu yn Saesneg yn Seremoni'r Cyhoeddi. Mae'n debyg nad oedd fawr neb wedi mynegi syndod na gwrthwynebiad i hyn yn yr Is-Bwyllgor. Tynnwyd sylw'r swyddogion at y bwriad a gofynwyd i'r Is-bwyllgor ail-ystyried. Mynnodd yr Is-bwyllgor ganu'r ddwy gân yn Saesneg neu (esgus pitw cyntaf ar ei ffordd) ni fyddai'r ysgolion yn fodlon canu yn y cyngerdd. Daeth y mater yn ôl at y Pwyllgor Cerdd a phasiwyd gydag 11 o blaid a 7 yn erbyn (pwy oedd y saith, tybed?) i geisio dwyn perswad ar y Is-bwyllgor eto, ond ar hyn o bryd, y sefyllfa yw y bydd y plant yn canu'n Saesneg yng nghyngerdd y Cyhoeddi.

Dyma rai o'r esgusodion pitw eraill:

Mae'r amser yn brin i ddysgu'r holl ganeuon yn Gymraeg. Roedd y plant wedi bod yn brysur yn paratoi at yr Ŵyl Gerddorol a gynhaliwyd ym mis Mai ac wrth gwrs, bu pawb yn brysur gyda chyngherddau'r Jiwbili!

Yn ol *Y Cymro*, dywedodd Idris Evans, Trefnydd y Steddfod na fyddai canu yn Saesneg yn torri'r rheol Gymraeg gan fod y rheol yn ymestyn dros weithgareddau'r maes yn unig yn ystod wythnos yr Eisteddfod. "Nid yw'n anarferol i gael eitemau yn Saesneg mewn gwyliau cyhoeddi fel yn Hwlffordd yn 1972."!!

Trist yw gweld yr Eisteddfod Genedlaethol yn dal i faglu ymlaen o un cyfaddawd i'r llall, gan wasgaru ei hegwyddorion ar ei hôl fel mân us. Mae'n hen bryd iddi ddechrau gweithredu yn ôl ysbryd yn hytrach na llythyren ei rheolau ei hun, neu golli cefnogaeth pob Cymro cydwybodol.

### CODI GWRYCHYN

Wyddwn i ddim fod peth bach yn medru codi gymaint o stŵr ond dyna fu hanes sticer bach yn dwyn y geiriau "JIWBILI, YCH A FI" a werthwyd yn eu cannoedd ar faes y Steddfod. Os na chawsoch chi un hyd yma, galwch heibio i siop Pete Meazey. Dwi'n siwr fod ganddo rai yn sbar ar gyfer y Roial Fisit!

## CADW'N HEINI!

Ferched!

**Fe fydd pob un ohonom ni yn awyddus i fod ar ein gorau flwyddyn i fis Awst pan ddaw'r Eisteddfod Genedlaethol ar ymweliad â Chaerdydd. Fe fydd angen corff iach a meddwl effro i ddilyn yr holl weithgareddau fydd ar droed ac yn siwr i chi, mi fydd pob un o ferched y brifddinas yn gwneud eu gore i ymddangos mor siapus a deniadol ag sy'n bosibl. A sut mae gwneud hyn? Wel, dechrau mewn pryd!**

Ymuno â dosbarth "Cadw'n Heini" fis Medi nesa ac erbyn Awst fe fydd pawb ar eu newydd wedd! Dydych chi ddim yn rhyw siwr iawn beth yw "Cadw'n Heini"? Wel, gwrandewch ar air o brofiad, oherwydd bu nifer ohonom wrthi yn ystod y Gaea diwetha. (Sylwoch chi ddim ar y gweddnewidiad?)

Os nad ydych wedi gwneud llawer o ymarfer corff oddi ar dyddiau ysgol, does dim rhaid i chi boeni — mae pawb yn yr un cwch ac mae'r athrawes, Mrs Bethan Williams, yn deall ein gwendidau ni. Cymraeg yw iaith y dosbarth ac mae 'na fwy nag un ferch sydd wedi elwa nid yn unig yn gorfforol, ond wedi dal er y cyfle i ystwytho'i Chymraeg yn ogystal â'i chymalau. Oes angen dillad arbennig? Dim o gwbl — trywser a blows llac a dim am y traed.

Beth amdani felly? Cofrestru nos Fawrth, Medi'r 5ed yn Ysgol Uwchradd Radur, cwrdd bob wythnos am ryw awr a hanner yn y gampfa, rhoi'r byd yn ei le wedyn dros baned o goffi ac i bawb sydd eisiau, mae'r pwll nofio at ein gwasanaeth am ryw hanner awr cyn troi am adre. Dim ond dau ddwsin gaiff ymuno â'r cwrs, felly, os oes diddordeb gyda chi, gwnewch yn siwr o'ch lle.

Os oes arnoch chi eisiau mwy o wybodaeth neu ychydig mwy o hyder, codwch y ffôn a mynnwch air â Bethan — Caerdydd 34867.

D.R.E.

### Medalau'r Jiwbili

- — i Myfanwy Talog, am ei hymdrech lew dros yr achos brenhinawl yn ardal y Tyllgoed
- — I Gadeirydd y Fainc yng Nghaerffili am garcharu pump bachgen ifanc am y drosedd anfaddeuol o ddwyn baneri'r Jiwbili oddi ar Gastell Caerffili.




# GWYNT,

Yng nghanol y gwynt a'r glaw, cafwyd Eisteddfod lwyddiannus dros ben yn y Barri, a chryn dipyn o lwyddiant i ysgolion ac aelwydydd y cylch.

AELWYD CAERDYDD 1af: Deialog 14-25, Parti Dawns 14-25, Unawd Telyn 15-19 (Helen Wyn Davies); Ail: Côr Merched 14-25, Dawns Unigol i Ferched 14-25 (Einir Davies); 3ydd: Côr Aelwyd SATB (10 i 20 o leisiau), Côr Aelwyd SATB 14-25 (20 i 40 o leisiau).

YSGOL GYFUN LLANHARI: 1af: Adrodd 12-15 (Mererid Davies), Gwaith defnydd bl. 1-3 (Sian Higham), Grŵp Pop 14-25, Gwaith Celf 3D, bl. 1-3 (Philip Harries), Pypedau, bl. 1-3 (Sian Higham); Ail: Parti Cyd-adrodd 12-15, Unawd penillion 12-15 (Iona Jones), Gwaith Defnydd bl. 1-3 (Sarah Philips); 3ydd: Deuawd dan 15 (Jenny a Claire), Arlunio, bl. 1-3 (Carolyn Davies), Cywaith pypedau, bl. 1-3.

YSGOL GYFUN RHYDFELEN: Tlws Emlyn Aman (Llenyddiaeth dan 15); Y Fedal Ryddiaith (Gwyneth Lewis); Cwpan Adran Ysgolion Uwchradd dan 15. 1af: Parti Cerdd Dant dan 15, Parti Bechgyn dan 15, Gwaith Defnydd Bl. 4-6 (Glynis Davies), Traethawd Gwyddonol (Sarah Davies); Ail: Côr dan 15, Cân Actol dan 15, Unawd llinynnol 15-19 (Elin Edwards), Côr Cerdd Dant dros 15, Gêm Wyddonol (Della Jones); 3ydd: cydradd am y Gadair (Gwyneth Lewis), Grŵp offerynnau pres, Triawd Cerdd Dant, Adrodd dan 15 (Judith Roberts), Siarad Cyhoeddus.

YSGOL GYMRAEG PENARTH: 1af: Pypedau 8-10 (Angharad Jones).

YSGOL GYMRAEG PONT SION NORTON, PONTYPRIDD: Ail: Côr dan 12.



# Araith Gwilym

**Y Fonesig Edwards, Mr Richards, a chyfeillion,**

**Ga i yn y lle cyntaf fynegi fy niolch mwyaf diffuant i Bwyllgor Steddfod y Barri ac i Fudiad yr Urdd am fy ngwahodd i fod yn Llywydd yr Ŵyl am eleni. Ystyriaf hi'n fraint ac yn anrhydedd mawr i gael bod yma ar lwyfan yr Ŵyl hon i groesawu pawb o bob cwr o Gymru i fwynhau'r wledd ddigamsyniol sy'n eich aros. Cawn weld hufen plant a phobl ifanc Cymru yn cystadlu ac yn cyhoeddi i'r byd bod diwylliant y Cymry yn dal yn fyw ond nid yn unig yn fyw ond yn blodeuo er gwaethaf y peryglon sy'n wynebu'r Gymraeg a'i dyfodol yn feunyddiol.**

Ni fyddai'n bosibl i gynnal yr Ŵyl hon wrth gwrs heb gymorth y cannoedd o athrawon, arweinwyr a chyfeillion yr achos sy wedi bod wrthi yn paratoi'n ddyfal ledled Cymru yn ystod y misoedd diwethaf. Diolch am y bobl hyn ac am eu gwaith cyson a chaled i sicrhau bod y genhedlaeth iau yn dal gafael nid yn unig mewn Eisteddfod fel hon ond drwy'r gwaith a'r hyfforddiant a gyflawnir yn yr Adrannau, Yr Uwchadrannau ac Aelwydydd ar hyd y flwyddyn. Mae llawer o'r bobl hyn yn gwneud y gwaith yn gwbl wirfoddol oherwydd eu cariad tuag at yr iaith. Nhw ydy halen y ddaear a hebddyn nhw fyddai bywyd plant a phobl ifanc Cymru yn llawer tlotach yn ddiwylliannol.

Mae'n ddyledus arnaf ar ddechrau'r Ŵyl hon i gydnabod cyfraniad cyfeillion y Barri a'r Cylch am weld eu ffordd yn glir i ysgwyddo'r baich o wahodd a threfnu a pharatoi at yr Eisteddfod. Mae hi wedi costio'n ddrud mewn amser ac arian am gyfnod o ddwy flynedd i'r cyfeillion hyn a'r gobaith rwan ydy bydd miloedd yn tyrru i'r Barri er mwyn mwynhau gwledd o ganu ac o adrodd, o ddawnsio ac o actio. Pwy a ŵyr pa ddylanwad y caiff yr Ŵyl hon ar feddyliau miloedd o blant a phobl ifanc ein gwlad boed yn Gymry Cymraeg neu yn ddi-Gymraeg. Er yr ystyrir y Barri yn dre Seisnigaidd bu gweithio cyson yn ysgolion y cylch dros y blynyddoedd i sicrhau bod plant y Barri yn cael cyfle i ddysgu'r iaith ac o flwyddyn i flwyddyn gwelid nifer o blant a phobl ifanc y Barri yng Ngwersylloedd yr Urdd. Hefyd yn y Barri ceir yr Ysgol Gymraeg a dau gylch Meithrin Cymraeg. Ie, oherwydd gweledigaeth yr ychydig yn y Barri flynyddoedd yn ôl gwelwyd y cynnydd hwn yng Nghymreictod y dre sy'n cyrraedd penllanw heddiw yn yr Ŵyl hon — yr Ŵyl Ieuenctid fwyaf o'i bath yn Ewrob os nad yn y byd.

Hoffwn fynegi ar goedd fy nyled bersonol i nifer o bobl fu'n gyfrifol am yr hyn ydwyf heddiw ac a fu'n gymorth i'm cadw yn Gymro mewn cyfnod pan oedd llawer o bobl yn dibrisio'r iaith, mewn cyfnod pan oedd llawer o bobl yn esgeuluso eu dyletswydd. Ces fy ngeni yn Llanishen, Caerdydd a'm magu yn Rhiwbeina. Yng nghyfnod fy mhlentyndod i nid oedd nag Ysgol Gymraeg nag Adran o'r Urdd yn lleol i gynnal fy Nghymreictod. Na, ar y dechrau roedd y cyfan yn dibynnu ar fy rhieni. Mae fy nyled yn fawr iddyn nhw am ddal gafael a sicrhau mai Cymry Cymraeg oedd fy mrawd a minnau. Caled fu'r frwydr, yn wir fe roddodd nifer o rieni y ffidil yn y to a gadael i'w plant droi yn ddi-Gymraeg, ond roedd carfan ar ôl — fy rhieni yn eu plith — oedd â'r gwytnwch a'r penderfyniad i weld na fuasem ni y genhedlaeth iau yn colli ein hiaith a'n gwreiddiau a'n henaid yn y broses. Mae pethau'n haws heddiw diolch i benderfyniad yr ychydig yn yr ardaloedd hyn.

Yna, mae rhaid cydnabod gwaith fy athrawon Cymraeg yn Ysgol Ramadeg Penarth. Bum yn ddisgybl yno am saith mlynedd. Ni ddysgid y Gymraeg pan es yno fel disgybl ond drwy ymdrechion fy rhieni daeth y Gymraeg yn ôl fel pwnc i'r ysgol unwaith eto. Ie, diolch i'm hathrawon — y diweddar Mrs Jenkins, Penarth, Mrs Mari Carter, Aberystwyth, a'r diweddar Glyn Tilley, Caerffili, am fy rhoi ar ben y ffordd. Trist oedd y newydd hollol annisgwyl am farwolaeth fy nghyn-ddarlithydd Cymraeg yn y Coleg, sef Dr Jac L. Williams, Aberystwyth. Bu yn gryn ddylanwad arnaf ac ef yn bennaf a'm hysbrydolodd i fynd yn Athro Cymraeg. Ni allem yng Nghymru fforddio colli dynion o ansawdd Dr Jac L. Williams. Fe weithiodd yn ddiarbed dros y Gymraeg ar hyd y blynyddoedd. Mae dylanwad y gŵr hwn yn drwm ar Gymru ac ni aiff ei weledigaeth yn angof gennym.

Dechreuodd fy nghysylltiad â'r Urdd pan roeddwn yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin. Dechreuais fynd fel



# GLAW A GWÊN

## Dyna oedd Steddfod y Barri. A dyma Awel Menai, un o'r miloedd o blant fu'n mwynhau eu hunain yn y Barri er gwaetha'r tywydd




Swog i Wersyll yr Urdd Llangrannog. Mwynheuais y profiad yn fawr iawn. Mwynheuais cymaint felly, fel fy mod yn dal i fynd i Langrannog a Glanllyn bellach bob blwyddyn ers y cyfnod hwnnw. hwnnw. Bu gweledigaeth Syr Ifan o sefydlu Gwersylloedd yr Urdd yn gyfraniad sylweddol i hybu Cymreictod ymhlith yr ifanc. Cafodd gryn ddylanwad arnaf fi ac ar y miloedd ar filoedd o blant, pobl ifanc a swyddogion dros y blynyddoedd. Yng Nglanllyn y dechreuodd Dafydd Iwan, Edward Morris Jones a Huw Jones ganu ac yn y gwersylloedd y dechreuodd nifer o bobl ifanc siarad â chymdeithasu â'i gilydd yn Gymraeg am y tro cyntaf. Ac yn y Gwersylloedd y cafodd nifer cynyddol o blant a phobl ifanc y broydd hyn y cyfle cyntaf i fyw drwy gyfrwng y Gymraeg am un wythnos yn y flwyddyn. Ie, y dysgwyr, mae lluoedd ohonyn nhw yn rhengoedd yr Urdd a'n braint ni fel swyddogion a hyfforddwyr ydy ceisio eu tywys i ddod yn Gymry Cymraeg. Mae cannoedd wedi llwyddo o ganlyniad i Gyrsiau Dysgu Cymraeg yr Urdd. Ysywaeth rhaid gwrthod cannoedd o ddysgwyr bob blwyddyn o achos diffyg lle. O na bai modd perswadio rhyw ŵr cyfoethog o Gymro i roi Gwersyll newydd i'r Urdd ar gyfer y Dysgwyr. Byddai'r weithred honno yn dwyn ffrwyth ar ei ganfed.

Mae llawer o sôn am y Fro Gymraeg yng Nghymru heddiw. Wel i mi, Cymru ydy'r Fro Gymraeg ac arnon ni y Cymry Cymraeg a'r Dysgwyr mae'r cyfrifoldeb a'r fraint o ofalu am Gymreictod y Fro. Os gwelir anghyfiawnder neu esgeulustod yna rhaid ymladd i'w dileu. Does dim rhaid torri'r gyfraith bob tro i ennill y frwydr. Mae'n syndod y dylanwad a gaiff llythyru â mudiadau, sefydliadau ac unigolion ond bod digon o bobl yn ymuno yn yr ymgyrch. Mae angen dwyn pwysau i gael ambell maen i'w wal. Mae 500,000 ohonom yn gallu siarad Cymraeg yng Nghymru o hyd. Dydy hynny ddim yn golygu bod y 500,000 o siaradwyr yn cefnogi'r iaith ond er hynny mae'r ffigur 500,000 yn cynrychioli tipyn o bobl yn wir mae yn fwy na phoblogaeth Gwledydd fel Ynys yr Iâ ac Ynys malta a chredaf pe bai mwy ohonom ni sy'n gynwysedig yn y ffigur hwnnw yn fodlon ymysgwyd, baswn y gallu cael llawer mwy o ddylanwad ar y sefyllfa ieithyddol yng Nghymru heddiw. Os ydym o ddifrif dros yr iaith mae'n rhaid *gweithredu*. Mae Cymdeithas yr Iaith wedi dangos y ffordd ac wedi gallu symud mynyddoedd. Hwyrach nad ydy'r dulliau wrth eich bodd bob tro ond gorfodir defnyddio dulliau eithafol ar brydiau oherwydd difaterwch cymaint o Gymry a ddylai wybod yn well. Ystyriwch a gweithredwch. Dewiswch eich dull a'ch maes ond gwnewch rhywbeth cadarnhaol yn lle eistedd yn ôl a gadael i griw bychan weithredu a dioddef weithiau er mwyn yr achos. Dywedodd Emrys ap Iwan unwaith "Lleddir yr iaith yn nhŷ ei chyfeillion". Gwyliwch rhag ofn i'r gosodiad droi yn wir. Mae difodiant yr iaith a thraddodiad gwiw mil o flynyddoedd ar y gorwel os na weithredwn yn rymus ac yn nerthol rwan.

Bu'r Gymraeg mewn perygl dros y canrifoedd ond rhywsut rhywfodd fe lynodd a goroesodd gan ddangos ryw wytnwch rhyfeddol. Mae angen yr un gwytnwch heddiw. Beth ddywedodd Syr Ifan ab Owen Edwards yn ei lythyr at blant Cymru wrth sefydlu'r Urdd yn 1922? Gwrandewch —


*"Mae Cymru mewn cymaint o berygl heddiw ag y bu erioed. Mae cymaint o ddieithriaid o'n cwmpas fel mae hyd yn oed ein hiaith, eich iaith chwi a minnau, iaith eich mam a'ch tad hefyd, mewn perygl o ddiflannu oddi ar fryniau ac o ddolydd ein hannwyl wlad. Plant gwan a phlant sâl iawn yw y rhai hyn sydd yn anghofio eu gwlad eu hunain; yn wir os na all Cymro bod yn driw i'w wlad, nid oes obaith y bydd yn driw i neb arall chwaith."*

Gwared ni rhag i ni droi clustiau byddar i'r neges hon sy yr un mor wir heddiw ag yr oedd hi yn 1922.

Mwynhewch yr Ŵyl hon, ond byddwch yn ymwybodol yr un pryd am y gwaith sy'n wynebu chi a minnau yn y blynyddoedd sy'n dod. Ewch yn ôl i'ch pentrefi a'ch trefi wedi eich ysbrydoli gan afiaith a bwrlwm yr Eisteddfod hon. Ewch yn ôl gyda mwy o benderfyniad byth i weithio a *gweithredu* dros yr iaith lle bynnag yw eich trigfan. Mae ei dyfodol yn dibynnu arnoch chi. "O Fannau Epynt i Fannau Llŷn, mynnwn gael siarad ein hiaith ein hun."

**MAE TOCYNNAU AR GYFER CYNGHERDDAU A DRAMA GŴYL GYHOEDDI'R EISTEDDFOD GENEDLAETHOL, MEHEFIN 30 — GORFFENNAF 2, AR GAEL YN SWYDDFA'R BWRDD CROESO, STRYD Y CASTELL, CAERDYDD, SYDD AR-AGOR O 10 - 5 DDYDD IAU A 10 - 3 DDYDD SADWRN.**

CADERNID GWYNEDD
BUDDSODDWCH
YNG NGHYMRU




CYMDEITHAS
TAI GWYNEDD
DANFONWCH HEDDIW AT
Dafydd Iwan
Cymdeithas Tai Gwynedd
Penygroes, Ffôn 730
Caernarfon
Gwynedd

MUDIAD YSGOLION MEITHRIN

Gwahoddir ceisiadau am y swydd o SWYDDOG DATBLYGU RHAN-AMSER YM MORGANNWG GANOL i helpu'r Swyddog Datblygu presennol.

Disgwylir i'r person fod â phrofiad a/neu diddordeb mewn Addysg Feithrin, yn un a fedr gynnig cymorth i athrawon y Cylchoedd, datblygu'r gwaith mewn canolfannau newydd a bugeilio'r Cylchoedd.

*Ceir ffurflenni cais a manylion pellach o'r cyfeiriad isod:-*

*Hywel D. Roberts, Cyfarwyddwr,*
*Mudiad Ysgolion Meithrin,*
*Canolfan yr Urdd, Heol Conwy,*
*Canton, Caerdydd.*

# I Wlad yr Addewid

**"Pererinion oeddem yno," meddai Gwenallt amdano'i hun a'i gwmni pan aethant i Israel: gall y deugain ohonom a aeth yno dros wyliau'r Pasg o dan arweiniad y Parch. Cynwil Williams ategu'r un profiad. Anodd gwybod ble mae dechrau adrodd yr hanes a cheisio cyfleu'r wefr a ddaeth drosom o dro i dro ar hyd y daith.**

Cawsom bythefnos yno ac aros mewn pedwar lle. Ar ôl glanio yn Tel Aviv, buom am dridiau mewn tref ar lan y môr cyn symud i Jerusalem ac aros yno am ryw wythnos: yno, i fyny i'r gogledd gan aros yn Haifa drod nos cyn mynd i dreulio tair noson mewn "kibbutz" ar lan y môr, heb fod ymhell o'r ffin rhwng Israel a Libanus. O deithio fel hyn, cawsom weld rhan fawr iawn o'r wlad, a thrwy'r amser buom dan ofal tywysydd eithriadol iawn: gŵr ifanc 29 oed a fu yng nghanol brwydro 1967 ac a oedd ar dân dros yr Israel newydd. Nid arbedai ddim arno'i hun wrth drosglwyddo hanes, traddodiadau ac ysbryd ei wlad.

Gellir gwerthfawrogi Israel o lawer i gyfeiriad. Cofiwn ei bod hi'n wlad santaidd i dri chrefydd, yr Iddew, y Cristion a'r Mwslim. Meddyliwch am yr hyn a welsom o fyd yr Hen Destament: Hebron, lle mae beddrodau'r hen batriarchiaid; Mynydd Carmel lle bu Elias yn wynebu proffwydi Baal; Jerico a'i hanes am Josua yn amgylchu'r muriau; Mynydd Tabor lle bu Deborah a Baruc, a Mynydd Gilboa lle y trechwyd Saul gan y Philistiaid ac y lladdwyd ei dri mab, a Jonathan, ffrind Dafydd, yn un ohonynt. Ac yn Jerusalem ei hun, llu o feddrodau gan gynnwys beddrod y Brenin Dafydd ar Fynydd Seion.

"Er mor hen, mor fyw ydyw hanes cenedl yr Iddew
Rhyw flwyddyn yn ôl y claddwyd Dafydd yn ei feddrod
A thri mis yn ôl y concrodd Judas Macabews elynion ei genedl."

Ni ellir bod yn hir yn Israel heb ymdeimlo â henaint y wlad a rhamant ei hanes. Dyna i chi Megiddo ("Har Megiddon", sef Bryn Megiddo, sydd wedi rhoi inni'r enw Armageddon). Yno mae olion o leiaf ugain cyfnod, o 4000 CC hyd 400 OC, un ar ben y llall. Yno y dywedir y bydd ymdrech olaf y byd rhwng pwerau Drygioni a Daioni. Mae'r sustem ddŵr yno yn ddarn eithriadol o beirianwaith, gan fynd 300 troedfedd i lawr drwy'r creigiau at ffynnon.

Tref Rufeinig ar lan y môr yw Cesarea a godwyd gan Herod Fawr a'i henwi felly er clod i'r Ymherodr Augustus Cesar; hon oedd prifddinas Rufeinig y wlad am 500 mlynedd. Yma y bedyddiodd Pedr Cornelius a'i deulu, ac yma y daeth Paul yn garcharor. Bu'r archaeolegwyr yn brysur iawn yma yn cloddio. Ar graig enfawr Massada, 1700, troedfedd uwchlaw'r Môr Marw, cawsom weld y gaer hynod a godwyd yn y lle cyntaf gan Jonathan Macabews. Cryfhawyd y lle gan Herod Fawr, a chododd balas yno. Ac yma y bu'r safiad olaf gan gwmni o Iddewon yn erbyn grym Rhufain yn 70 OC. Gwelsom hefyd lawer o olion y Croesgadwyr trwy'r wlad, ac yn arbennig yn Acre.

Ond yn ddiau, dilyn ôl troed Iesu a roddodd fwyaf o wefr inni. Mynd i Fethlehem a chanu "Wele, cawsom y Meseia" yn ogof y Geni; Ei ddilyn i Nasareth a saif ymysg y bryniau y bu'r cerdded yn dalgryf drostynt i gyrraedd Llyn Galilea lle pregethai ar fin y dwr ac ar lethrau'r bryniau, a lle y dewisodd ei ddisgyblion; i Gapernaum ac o dan haul crasboeth, sefyll ar adfeilion yr union synagog lle'r aeth "yn ôl ei arfer": syllu ar y llu blodau nad "Ydynt yn hau nac yn medi" a dyfai ymhobman.

Yna, Ei ddilyn i fyny i Jerusalem a sefyll ar Fynydd yr Olewydd i weld Jerusalem yn disgleirio fel aur, a gweld Mynydd Moreia lle codwyd y Deml. Oddi tanom roedd Eglwys Dominis Flevit, gem o eglwys o waith y pensaer Barluzzi, lle cofnodir y man lle wylodd Iesu dros Jerusalem. Oddi tanom hefyd gwelem Eglwys y Pater Noster:

"Y Gymraeg yn yr Eglwys ar
Olewydd;
Y rhagorfraint fwyaf a
gafodd hi."

Profiad ysgubol oedd dringo i Fynydd Seion ac i'r Cenacl, sef yr Oruwch Ystafell, a chanu emyn yno. Mynd wedyn i Ardd Gethsemane, gardd o flodau hyfryd erbyn hyn, ac yn cynnwys coed olewydd sy'n gannoedd o flynyddoedd o oed. Oddi yno i Eglwys yr Holl Genhedloedd:

"Ac ynddi y mae'r garreg y bu
Crist yn gweddio arni,
Carreg yn olau goch gan Ei
chwys."

Dringo'r grisiau o ddyffryn Cedron i'r Eglwys a godwyd uwchben tŷ Caiaphas, a gweld y mannau fflangellu a charcharu yno.

Orig gysygredig oedd honno ar Sul y Pasg pan safem ar fryn Golgotha a chanu "Y Gŵr a fu gynt o dan hoelion". Oddi tanom roedd holl swn a dwndwr y ddinas — y Groes yng nghanol berw bywyd. Yna mynd yn dawel araf at Fedd Gwag, bedd mewn gardd, a chael gwasanaeth, darllen, gweddio a chanu. Ac wrth weddio yno, clywed Mr Williams yn ein cysylltu ni â'n teuluoedd a'n hanwyliaid yng Nghymru a oedd yn cyd-orfoleddu gyda ni yng ngwyrth yr Atgyfodiad.

Ac Israel heddiw? Gwelsom a chlywsom frwdfrydedd ein tywysydd ifanc wrth iddo olrhain yr hanes o 1948 ymlaen, y brwydro gyda'r Arabiaid a gosod y ffiniau a holltai Jerusalem yn ddwy. Yna rhyfel 1967 pan estynnwyd y ffiniau at afon Iorddonen i gynnwys Jerusalem i gyd, gan gynnwys y Wal Orllewinol, y lle mwyaf santaidd i'r Iddew. Ond tristwch eithafol oedd mynd i Uchelderau Golan a chlywed yno am y wifren bigog sy'n rhwygo a thorri cnawd unrhywun a faidd geisio torri trwyddi. Mae Israel heddiw wedi ei hamgylchynu ar bob tu ond y Gorllewin gan elynion — Libanus, Syria a'r Aifft.

Ar ddiwedd pythefnos a oedd yn gyforiog o brofiadau amrywiol, teimlwn yn ddiolchgar iawn i'r Parch Cynwil Williams am drefnu'r daith, am wneud yr holl drefniadau, ac am ein harwain, trwy ei ddarlleniadau a thrwy'r emynau, i ryfeddu mwy a mwy at gyfoeth yr Efengyl.

EIRWEN HUMPHREYS

# PLATIAU '78

Ar ôl llwyddiant eithriadol yr arbrawf i gynhyrchu platiau arbennig ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Aberteifi y llynedd, bwriedir cael cyfres arall o blatiau i goffau yr Eisteddfod Genedlaethol sydd i'w chynnal yng Nghaerdydd y flwyddyn nesaf. Cynhyrchwyd cyfres o fil o blatiau gan Gwmni Crochenwaith Boncath, gerllaw Aberteifi, pob plat wedi ei rifo, ac yn cael ei werthu am £12. Gwerthwyd pob un o'r platiau a daeth y fentr a bron bedair mil a hanner o bunnau i goffrau'r Eisteddfod. Oherwydd y galw mawr cafodd llawer iawn o bobl eu siomi am iddyn nhw fethu archebu mewn pryd, ac erbyn wythnos yr Eisteddfod yn Aberteifi roedd rhai platiau yn newid dwylo am £25. Mae si fod rhywun yn ddiweddar wedi cynnig cymaint a £70 am un o'r platiau hyn.

Mae trefnwyr Eisteddfod Caerdydd wedi gofyn i gwmni Boncath gynhyrchu'r platiau unwaith eto. Ond y tro hwn fe fydd na 2,000 ar werth, y rhain eto wedi eu rhifo, ac yn gwerthu am £15 yr un. Gobeithir codi wyth mil o bunnau i gronfa Eisteddfod Caerdydd. Ond gair i gall — y tebyg yw y bydd y rhain eto yn boblogaidd iawn, ac felly y cyntaf i'r felin...!

Ar gyfer Eisteddfod Caerdydd hefyd fe fydd na gwpanau i goffau'r wyl — y rhain yn cael eu cynnig am bunt yr un.


EICH ADEILADYDD LLEOL



Y mae'r cwmni hwn, sydd bob amser ar flaen y gad, yn lleol a thrwy holl wledydd Prydain, wedi ymgymryd â nifer helaeth o gynlluniau yn Ne Cymru dros yr ugain mlynedd diwethaf. Mae'r cynlluniau ar y gweill ar hyn o bryd yn cynnwys tai yng Nghasnewydd a siop Debenham's yn Abertawe. Ymhlith cytundebau sydd newydd eu cwblhau gan y cwmni ceir llety i fyfyrwyr ac adeilad academaidd y Dyniolaethau ar gyfer Coleg y Brifysgol, Caerdydd.

Am gytundebau arfaethedig o unrhyw faint, ymgynghorwch â Laing drwy ffonio eich swyddfa leol *newydd*.

LAING

Contractwr rhyngwladol at eich gwasanaeth yn lleol

*cysyllter â:* Mr Derrick Birtwhistle
**John Laing Construction Cyf.,**
14 Heol yr Eglwys Gadeiriol,
Caerdydd CF1 9LJ
Tel: Caerdydd (STD 0222) 43309

*cysyllter â:* Mr F.G. Cranmer-Brown
**John Laing Construction Cyf.,**
Nelson House, Rupert St.,
Bryste BS1 2QB
Tel: Bryste (STD 0272) 294661

**Contractwyr adeiladu a pheirianneg suful, mecanyddol a diwydiannol**




# ORIEL ar Olwynion

Hwyrach i rai o'n darllenwyr sylwi ar gerbyd smart a'r enw ORIEL ar ei ochr ar faes y Steddfod yn y Barri. (Hwyrach i rai ohonoch, fel y Gol., fod yn cysgodi ynddo rhag y llifeiriant glaw diddiwedd!) Wel o hyn ymlaen bydd Oriel, siop lyfrau Cyngor Celfyddydau Cymru yn Heol Siarl, Caerdydd, yn meddu ar ddalgylch llawer mwy eang diolch i'r cerbyd hwn sef siop lyfrau deithiol i'r cymoedd.

Bydd y gwasanaeth hwn, sy'n unigryw yng Nghymru, os nad yng Ngwledydd Prydain i gyd, yn hwyluso prynu llyfrau, posteri, recordiau, cardiau ac ati na ellir dod o hyd iddynt yn hawdd iawn y tu allan i'r brifddinas. Canolbwyntia'r fan yn bennaf ar drefi megis Aberdâr, Abertileri, Bargod, Caerffili, Coed Duon, Cwmbran, Glyn Ebwy, Merthyr Tudful, Pontypŵl, Pontypridd a Thredegar. Yn anffodus, oherwydd gwrthodiad Cyngor Bwrdeistref y Rhondda i ganiatau defnyddio'r meysydd parcio, ni ellir gwasanaethu Treorci, Tonypandy a Ferndale.

Ceisir darparu ar gyfer sefydliadau neilltuol fel ysgolion a cholegau, gan alw heibiol hefyd i stadau diwydiannol yn ystod yr awr ginio. Bwriad y fan yw adlewyrchu stoc siop Oriel yng Nghaerdydd, sy'n cynnwys y cyffredin a'r anghyffredin. Fe geir llyfrau clawr papur, er enghraifft, gyda rhywbeth at ddant pawb, llyfrau deniadol i blant yn Cymraeg yn ogystal â Saesneg, detholiad o lyfrau Celf, Crefft a Llên, a llyfrau Cymraeg i ddysgwyr ac i'r rhai y mae'r Gymraeg yn famiaith iddynt.

Mae'r Oriel deithiol yn ganlyniad uniongyrchol i'r galw a fu am siop lyfrau o'r math y tu allan i Gaerdydd. Bydd yr Oriel deithiol ar yr heol am chwe diwrnod yr wythnos, gan aros ymhob lle am ychydig oriau bob pythefnos.




# Dai'n gwella

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Nia a Dai Waddington ar enedigaeth Mari Elin ddechrau mis Mai. Mae'n debyg fod y fam a'r plentyn yn gwneud yn iawn, ac y bydd Dai yntau ar ei draed eto cyn bo hir!

YN EISIAU:
PERSON CYMRAEG PROFIADOL I WARCHOD BABAN O FIS MEDI YMLAEN. ORIAU YSGOL. CYSYLLTER Â MRS WILLIAMS, CAERFFILI 868307.

## CALENDR MEHEFIN–GORFFENNAF

**MEHEFIN**

25 Cwmni Dawns Werin Aelwyd Caerdydd yn dathlu GŴYL IFAN (manylion ar dud. 12)
30 Gŵyl y Cyhoeddi: CYNGERDD Y PLANT Pafiliwn Gerddi Soffia 7.30p.m.

**GORFFENNAF**

1 Gŵyl y Cyhoeddi:
Theatr yr Ymylon yn perfformio SIWAN Theatr Sherman 7.30p.m.
Cwmni'r Urdd A CHERDDI ERAILL Yr Arena, Theatr Sherman 10.30p.m.
2 Gŵyl y Cyhoeddi: SEREMONI'R CYHOEDDI Gerddi Bute 3.00p.m.
Côr yr Eisteddfod a Cherddorfa Gymreig y BBC CYNGERDD Y CYHOEDDI Pafiliwn Gerddi Soffia 7.30p.m.
2-4 Theatr yr Ymylon SIWAN Theatr Sherman 7.30p.m. Sadwrn a Sul yn Saesneg, Llun yn Gymraeg eto.
5 Ysgol Gyfun Rhydfelen CYNGERDD BUDDUGWYR Y BARRI Neuadd yr Ysgol 7.30p.m.
9 Cwmni Dawns Werin Aelwyd Caerdydd DAWNSIO DRWY'R FRO (manylion ar dud. 12).
14 Cwmni Dawns Werin Aelwyd Caerdydd DAWNSIO DRWY'R FRO Llysfaen: y Tŷ Mawr 7.30p.m.
18 Y Dinesydd CYFARFOD CYFFREDINOL Neuadd Dewi Sant 7.30p.m.

# Mwy am y Meini

Cerrig newydd o chwarel Craig yr Hesg, Pontypridd, fydd y meini yng Nghylch yr Orsedd ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd y flwyddyn nesaf. Y rheswm am hyn yw — fandaliaid. 'Roedd trefnwyr yr Eisteddfod yn ystyried defnyddio'r meini sydd yng Ngerddi'r Orsedd, gerllaw'r Amgueddfa Genedlaethol ym Mharc Cathays. Ond o fewn yr wythnosau diwethaf gwnaed difrod i'r meini hyn sy'n mynd yn ôl i eisteddfod a gynhaliwyd yn y ganrif ddiwethaf. Gwelwyd bod un o'r meini wedi cael ei hollti a dau faen arall wedi dioddef difrod. Yn wyneb hyn penderfynwyd nad oedd mwyach yn ddiogel i'w symud i gyffiniau'r Castell lle bydd seremoni gyhoeddi'r eisteddfod yn cael ei chynnal ar yr ail o Orffennaf eleni.

Aeth swyddogion yr Orsedd i ymgynghori â pherchnogion chwarel Craig yr Hesg Pontypridd, sef Cwmni Amey Roadstone. Cafwyd bod rheolwr y cwmni hwnnw, Mr Brian Fears, ddim ond yn rhy barod i wneud popeth yn ei allu i drefnu bod cerrig o'r chwarel yn cael eu torri ar gyfer y seremoni.



YSGOL GYFUN RHYDFELEN
yn cyflwyno

**CYNGERDD BUDDUGWYR Y BARRI**

Neuadd yr Ysgol
Nos Fawrth, Gorffennaf 5ed 7.30p.m.

# Cornel y beirdd

*Y FABILON HON*
*(gyda pheth ymddiheuriad i Crwys)*

*Egni a dwndwr, trefn ac ysgariad blin:*
*newid a thorri, ac ar siawns mawrhau —*
*hon yw fy Mabilon i!*

*O'i hafon front, hyd leidiau ei thraeth,*
*ac o fynydd i fynydd, lledodd ei maint a'i*
*hyd — y Fabilon hon.*

*Fel sarff y galon, na châr ond ei gwenwyn*
*ei hun,*
*bygythia fy mywyd, tra dydd, tra nos —*
*fy Mabilon i.*

*Ond trwy hon, meddant hwy, y mae Cymru*
*i fyw,*
*heb ofn, heb gur, rhyw ddydd a ddaw — ei*
*Babilon hi.*

*Chwedl neu gân — onid ofer pob rhin a mydr*
*a phwy a frudia yr hyn a fawrhâ y Fabilon*
*hon?*

*Llandaf.* H.L.

# YR URDD: Dosbarth Caerdydd

Cynhaliwyd cyfarfod olaf Pwyllgor Dosbarth Caerdydd am y flwyddyn ysgol gyfredol ar y 9fed o Fai. Cafwyd trafodaethau buddiol ar amryw bynciau, yn enwedig yr Eisteddfodau Cylch a Sir. Teimlad y dylid sicrhau cynnal pob Eisteddfod Gylch *ar ôl* Mawrth y cyntaf, er hwyluso gwaith yr athrawon yn yr ysgolion.

Pasiwyd hefyd i ofyn i'r Pwyllgor Sir i ystyried gwneud cais i'r Cyfarwyddwr Addysg ganiatau i gystadleuwyr o'r ysgolion uwchradd gael eu rhyddhau ar gyfer Eisteddfod a gynhelid yn rhannol yn ystod oriau ysgol.

Roedd y pwyllgor o'r farn hefyd y dylid cynnal cwrs undydd yn yr Hydref, cwrs a fyddai'n dilyn yr un patrwm â'r un a gafwyd y llynedd yn y Ganolfan Athrawon. Fe gynhelir y cwrs hwn ar y 30ain o Fedi.

Swyddogion am y flwyddyn: Cadeirydd, Garwyn Davies; Ysgrifennydd, Lowri Morgan; Trysorydd, Tudor Williams; Trefnwyr Eisteddfodau, Zac Davies (Dwyrain), Kathryn Jones (Gorllewin); trefnwyr Gwasanaeth Carolau, Anita Davies a Jennie Annetts.

Trefnwyd Nofio Nawdd ar y cyd gyda'r Pwyllgor Rheoli ddydd Sadwrn, Mai 14eg. Cafodd y plant gryn bleser yn tarfu dyfroedd y Ganolfan Chwareuon yng Ngerddi Soffia a'r gobaith yw y daw elw sylweddol i'r Ganolfan drwy ymdrechion diflino y nofwyr.

Cynhelir y pwyllgor nesaf am 4.30p.m., Medi 26ain yn y Ganolfan Heol Conwy. Mae croeso cynnes i bawb i ddod.

G. DAVIES




# Y MUDIAD MEITHRIN

**Rhyfedd ar ôl pwl go hir o fethu gweld golau ddydd fel y daw rhywbeth i roi hwb i'r galon. Er gwaetha llu o anhawsterau mae Cylch y Tyllgoed yn ffynnu ac yn Gylch hynod o hapus. Er na lwyddasom i gael athrawes y mae'r mamau'n gweithio'n frwd trwy'i gilydd ac yn llwyddo i gynnal y cylch. Yn ddelfrydol hoffem gael un athrawes barhaol yno — ond hyd yma nid oed neb wedi dod i'r adwy.**

## Rhodd hael eto

Problem ariannol sy'n llethu'r holl gylchoedd. Llawenydd yw cyhoeddi fod Cymro brwd sy'n dewis bod yn ddienw wedi cyfrannu £100 i goffrau'r Tyllgoed. Dyma'r trydydd canpunt i ddod o'r un ffynhonnell. Gobeithio fod y gŵr yma yn ddarllenydd *Y Dinesydd*. Carwn yn fawr iddo wybod mesur ein gwerthfawrogiad. Mae'r rhodd yma'n galluogi'r Cylch i brynu offer addysgiadol i'r plant a fydd yn sicrhau fod y Cylch yn llwyddo i ehangu profiad y plant.

Naw o blant sydd yno a bydd dau yn cymryd y cam mawr fis Medi ac yn mynd i Fryntaf. O fis Medi 'mlaen bydd oddeutu dwsin yn y Cylch. Ar y 15fed o Fehefin bydd Noson Goffi yn y Cylch o 6.30p.m. tan 9.30p.m. ac fe werthir "seconds" o ddillad o siopau mawr Caerdydd. Ceisiwch fynd i gael bargen ac i roi hwb i ddegfed cylch Caerdydd. Yn neuadd y Sgowtiaid oddi ar Fairwater Road y mae'r cylch. Mae'n lle digon anhygyrch — tro bach sydyn i'r chwith ymron cyn i Fairwater Road droi i lawr i Fairwater Grove West.

## Ehangu gorwelion

Bu mis Mai yn fis digon prysur a diddorol i mi. Bum ar gwrs a drefnwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Cafwyd darlithoedd ardderchog gan ddwy wraig o'r PPA (*Pre-School Playgroups Association*) a'r *Save the Children Fund*. Byddaf yn pryderu weithiau bod ein hynni'n gorfod mynd yn gyfangwbl i hybu'r Gymraeg — tra bod cyrff fel y PPA a'r *Save the Children Fund* yn gallu rhoi sylw i anghenion cymdeithasol teuluoedd mewn ardaloedd difreintiedig, y sipsiwn a phlant un rhiant. Mae'n debyg mae'n hymlyniad at yr iaith oedd yn cyfri mai tenau iawn oedd cefnogaeth y Mudiad i'r cwrs yma. Ychydig iawn o Gymreictod oedd ynglŷn â'r cwrs — ond oni allwn ni gefnogi pethau fel hyn fydd dim newid.

## Ble mae'r athrawon?

Fe wn fy mod fel tiwn gron yn crefu am athrawon — ond dyna fy nghur pen mwyaf yn y gwaith. Fel y crybwyllais, mae'r Tyllgoed mewn eisiau ac mae brys i ddod o hyd i athrawes erbyn mis Medi yng Nghylch Llanfihangel ar Elai (Culverhouse Cross). Buaswn yn falch iawn o glywed gan rywun.

## Breuddwyd Jac L.

Wrth gloi'r golofn yma, ryw'n sicr y carai "pobol y Mudiad" a Chymry Cymraeg Caerdydd ymuno â ni i dalu gwrogaeth i goffadwriaeth yr Athro Jac L. Williams a oedd yn aelod o Bwyllgor Cenedlaethol y Mudiad ac yn gymaint o gefn i bopeth a gredwn ynddo. Gyda marw'r Athro Jac L. Williams teimlaf bod mwy o alw fyth arnom i ddal ati i frwydro a chyrchu at y nod — a bod modd inni greu Cymru ddwyieithog. Yn bendifaddau y mae gan y Mudiad Ysgolion Meithrin gyfrifoldeb i sicrhau'r freuddwyd hon.

SHÂN EMLYN

CYRHAEDDWCH
78,500
O DDARLLENWYR
**Ffôniwch i gael ein
telerau hysbysebu
CAERDYDD 396262**

# NEWYDDION CWM RHYMNI

## NEWID TREFNWYR

Mae Anne England, Trefnydd Sir gyda'r Urdd ym Morgannwg Ganol a Gwent, wedi llwyddo o fewn prin tair blynedd i wneud argraff ddofn a pharhaol ar waith yn Urdd yn yr ardal. Bu ei gwaith yng Ngwent yn arbennig o lwyddiannus a llwyddwyd i agor nifer o ganghennau'r Urdd drwy'r. Sir Mae'n chwith meddwl, felly, y bydd Anne yn ymddiswyddo ar ddiwedd mis Mehefin. Serch hynny, mae'r Trefnydd newydd eisoes yn adnabyddus ac yn un sydd a'r gallu i barhau'r gwaith da. Mae enw'r gŵr hwnnw, sef Marc Phillips, yn un sy'n gyfarwydd i ni mewn cysylltiadau eraill, ac y mae dymuniadau gorau holl aelodau'r Urdd yn y ddwy Sir yn ei groesawu ar ddechrau ei waith.

Mae Pwyllgor Sir Gwent wedi pwyso ers blynyddoedd bellach am Drefnydd Sir llawn amser gan ddadlau fod yma digonedd o waith cenhadol i gadw Trefnydd yn brysur bob diwrnod o'r flwyddyn. Cymerwyd cam pwysig yn ddiweddar i wella'r sefyllfa drwy apwyntio Paul Barrett yn gynorthwywr i Marc Phillips yng Ngwent. Mae'r swydd dan nawdd y Cynllun Creu Swyddi ac mae'r Pwyllgor Sir yn gobeithio y bydd yn bosibl i'r cynllun barhau dros gyfnod o flynyddoedd.

## Y CYLCH DIWYLLIANNOL

Yng nghyfarfod olaf y Cylch am y flwyddyn etholwyd Mrs Val Hookway yn Gadeirydd a Dafydd Islwyn yn Ysgrifennydd. Mae'r Cylch eisoes wedi penderfynu ar ei raglen ar gyfer 1977-78 ac fe fydd W.J. Jones, Cyncoed, yn cyflwyno cyfres o ddeg darlith ar 'Cerrig Milltir ein Llên'. Hon fydd y bedwaredd flwyddyn yn olynol i W.J. arwain y Cylch yn ei drafodaethau ac mae'r ffaith hon yn unig yn dystiolaeth i'w lwyddiant i ennyn diddordeb yr aelodau. Cynhelir y cyfarfodydd yng Nghanolfan yr Athrawon ar nosweithiau Llun yn ystod y gaeaf. Ceir rhagor o fanylion gan Dafydd Islwyn, 106 Heol Llancayo, Bargoed 830994.

## NEWID LLE

Mae Ysgol Feithrin Gymraeg Rhymni wedi symud ac, erbyn hyn, mae'r plant yn cyfarfod yn y Clwb Ieuenctid bob bore Mercher a Iau o ddeg y bore hyd hanner dydd. Arweinydd yr Ysgol yw Mrs Janet Davies ac mae lle i un neu ddau o blant eto i ymaelodi.

## CASGLIADAU IFOR BACH

Mae plant Ysgol Ifor Bach, Senghennydd, wedi bod yn brysur iawn yn ddiweddar yn gwagu pob cadw-mi-gei o fewn cyrraedd! Canlyniad yr holl brysurdeb oedd dau gyfraniad sylweddol o'r Ysgol, y naill i Gymorth Cristnogol a'r llall i Apêl Angorfa (Cartref T. Rowland Hughes yn Llanberis).

## CWRT Y CADNO

Bu rhieni plant Ysgol Rhydfelen yn cynnal dwy noson Gwin a Chaws, yng Ngwesty'r Capel, Bargoed, ac un yn y Ganolfan Dydd yn Rhymni. Aeth yr elw ar y ddwy noson i Gronfa'r Ysgol i brynu Cwrt y Cadno, canolfan i weithgarwch awyr agored ger Llanymddyfri. Ar ganol y noson yn Rhymni cyflwynwyd anrheg gan y rhieni i Mrs Lily Richards mewn gwerthfawrogiad o'i gwaith ar yr ochr gerddorol gyda'r plant.

## MOI BACH

Llongyfarchiadau i Moi a Heddys Parri, 101 Heol Caerffili, Senghennydd ar enedigaeth merch ar Fai 24 yn Ysbyty'r Mynydd Bychan.

Amgueddfa Genedlaethol Cymru
AMGUEDDFA WERIN CYMRU
**Cynllun Creu Gwaith. Crynodebu Tapiau**

Mae angen 4 person i weithio o dan y cynllun uchod yn yr Amgueddfa Werin Cymru hyd 31 Mawrth, 1978. Bydd tri person yn gyfrifol am grynodebu casgliad o dapiau Cymraeg a'r person arall yn gyfrifol am godi geirfa dafodieithol o amrywiol ffynnonellau a pharatoi crynodebau o chwedleuon gwerin. Rhain cael gwybodaeth drylwyr o'r iaith Gymraeg hyd at safon level A neu safon uwch. Hyfforddiant Prifysgol neu Goleg addysg yn fantais ychwanegol. Cyflog: £51.69 yr wythnos. Rhaid i'r ymgeiswyr fod ar gofrestr y di-waith.

*Llythyrau cais at y Swyddog Sefydliad,*
*Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd, CF5 6XB.*

## CROESO I LOWRI

Llongyfarchiadau i Lowri, baban newydd-anedig Cenwyn a Luned Edwards, am dynnu sylw Caerdydd oddi wrth ddathliadau Bôr y Ganrif yn Llundain drwy fentro i'r byd ar fore'r Jiwbili! Mae'n siwr fod ei rhieni'n falch iawn i'w chroesawu — ond yn llai balch ynglŷn â chael eu cyflwyno â mwg Jiwbiledig gan frenhiniwr pybyr i nodi'r achlysur! Dymuniadau gorau i'r teulu — â hir oes i'r frenhines fach newydd!

# Byrhau'r Oriau

Bydd y rhan fwyaf o wardiau Ysbyty'r Heath yn byrhau eu horiau ymweld o Fehefin 1af ymlaen, sef o 4.00p.m. hyd 8.30p.m. yn lle o 2.00p.m. hyd 9.00p.m. fel cynt. Ond bydd modd ymweld â phlant yn yr uned bedeatrig unryw adeg o hyd. Bydd yr oriau newydd yn golygu mwy o lonydd i gleifion, llai o faich ar ymwelwyr sy'n teimlo fod yn rhaid iddynt aros yr holl amser, a llai o ymyrraeth ar waith y doctoriaid a'r nyrsus.

# Merched y Wawr

Bydd blwyddyn newydd cangen Caerdydd o Ferched y Wawr yn agor am 7.30 yr AIL nos Fawrth ym Medi yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conway. Ar ôl y cyfarfod agoriadol hwn byddwn yn cwrdd ar nos Fawrth GYNTAF pob mis. Rhown groeso cynnes iawn i holl ferched a gwragedd Caerdydd i ymuno â'r gangen.

Fel y gwyddoch, mae Merched y Wawr yn torri ar draws pob enwad, sect a phlaid a felly dyma gyfle inni i gyd ddod i adnabod ein gilydd. Bydd y pwyllgor newydd yn mynd ati'n ddiymdroi i drefnu rhaglen amrywiol a diddorol, gobeithio.

Gan fod arnom hefyd dipyn o gyfrifoldeb wrth baratoi at drefnu cyfarfodydd y mudiad yn ystod yr Eisteddfod, rydym yn awyddus i gael cefnogaeth a chydweithrediad pawb. Felly croeso mawr i'r hen aelodau a chroeso arbennig i lu o aelodau newydd. Os hoffech ragor o wybodaeth, bydd yr Ysgrifennydd, Mrs Marion Jones, 63 St Ambrose Road (ffôn: 67250) yn falch i'ch helpu.

EIRWEN HUMPHREYS,
Llywydd.

**BYWYD**

*(10.30p.m. dydd Mawrth, 28 Mehefin)*

Yr wythnos hon awn ar bererindod i Benrhyn Dingle yn Ne Orllewin Iwerddon ac Ynysoedd y Blaskets yng nghwmni yr Athro Padraig O'Riain o Brifysgol Cork.

HTV CYMRU WALES

o'r Ganolfan Deledu yng Nghaerdydd

# Dathlu Gŵyl Ifan

**Dim ond nodyn byr yw hwn i roi rhai manylion am weithgareddau Cwmni Dawns Werin Aelwyd Caerdydd. Ym mis Chwefror aeth y criw i Lundain i gynrychioli Cymdeithas Ddawns Werin Cymru yng Ngŵyl flynyddol yr English Folk Dance & Song Society yn Y Neuadd Albert. Mae'r stori'n hir am y penwythnos hwnnw, digon i ddweud na welwyd neb yn dawnsio gwerin Cymreig am bump y bore yn Llundain o'r blaen!**

Ers hynny mae pethau wedi mynd yn râs wyllt o 'steddfod i ymarfer, cwrs a chyngerdd. Ar y gweill hefyd mae ein Gŵyl Ifan. Y syniad gwreiddiol am hyn oedd ail atgyfodi'r traddodiad o ddawnsio canol haf ym mhentref Nantgarw ac o'r syniad tyfodd yr ŵyl. Cynhelir yr achlysur ar ddydd Sadwrn, Mehefin 25ed. O : 10.00 y bore bydd dawnswyr o bobman yng Nghymru yn ymgasglu i ddawnsio mewn gwahanol ardaloedd ar hyd Bro a Blaenau Morgannwg. Trefnir rhyw dair taith a bydd y rhain yn gorffen tu allan i'r Cross Keys, Nantgarw am 4.00 y prynhawn i gyd ddawnsio tan 6.00. I'r rhai sy'n sychedig mae trwydded estynedig wedi ei drefnu ar gyfer y prynhawn yn y Cross Keys.

Am 7.00 y nos bydd pawb yn anelu am y Stafell Wledda, Castell Caerdydd am wledd a thaplas tan 12.30. Mae croeso i unrhyw un o ddarllenwyr y Dinesydd ymuno â ni am hyn ond mae'n rhaid wrth ryw fath o wisg werin am fynediad i'r Castell min nos, h.y. dyw britches a gwisg draddodiadol ddim yn angenrheidiol ond mae llodre a iorcs a siol laes.

Os ydych am ddod i'r wledd a'r taplas y gost fydd £2 y pen a 50c i'r taplas yn unig. Bydd hwn yn dechrau am 8.30. Bydd bar tan 11.45 gyda llaw. Y cyntaf i'r felin gaiff falu felly pob un sy am docyn anfonwch at

Rhodri Jones, 169 Heol Caerdydd, Nantdwyrain, Dinas Powys

neu

J.D. James, 29 Fairwater Grove West, Tyllgoed, Caerdydd.

Er hyn os na fedrwch ddod atom yn y nos dewch yn llu i ddathlu Gŵyl Ifan yn Nantgarw. Cewch weld dipyn o stranciau'n cyndeidiau.

Gyda llaw mae'r Cwmni yn dawnsio o gwmpas y Fro eleni eto a dyma rhestr o'r safleoedd dawnsio a'r dyddiadau. Dewch â'r plant, efallai bydd rhai ohonoch am ymuno i gael ystwytho tipyn ar yr esgyrn sychion gyda herc yn Jac y Do a cham dricham yn Llanofer.

RHODRI JONES




# B.H.C. (Cymru)

**Mae diffyg sicrwydd swydd ar derfyn cyrsiau gradd ein prifysgolion, hyd yn oed mewn meysydd traddodiadol fel dysgu a'r gwasanaeth sifil, wedi amlygu'r angen am ddarparu disgyblaeth academig uwchradd wedi'i chymhwyso ar gyfer proffesiynau neilltuol. Eisioes mae'r prifysgolion Cymreig yn darparu ar gyfer y byd cyfreithiol a'r maes meddygol. Mewn oes lle mae'r diwydiant hamddena, lle darperir ar gyfer ddyheadau y cyhoedd oddi allan i oriau gwaith, yn ffynnu, mae angen fwy fwy i'r pyrth academig blygu o'u tyrrau ifori academig pur ac ateb y galwad mewn ffordd ymarferol.**

Yng ngwyneb hyn mae'n braf gallu adrodd fod cynlluniau pendant ar y gweill i sefydlu adran hap-chwarae o fewn Coleg Prifysgol Caerdydd. Yn ôl fy ffynhonnell, mae dau gwmni adnabyddus yn y byd 'hap-chwarae' wedi addo swm sylweddol i hybu datblygiadau cynnar yr adran. Mae'n galonogol clywed hefyd fod posib dilyn y cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg, ac alla'i ddim ond mynegu llongyfarchiadau i'r arloeswyr hyn am arddangos gymaint o ffydd ym meddylfryd mwy eangfrydig y Cymry Cymraeg y dyddiau hyn.

Fe rydd gradd dda yn y pwnc siawns waith ardderchog ym meysydd betio ar geffylau, milgwn, pêl droed, criced ac amryfal chwaraeon eraill. Dywed y darpar brosbectws fod agoriadau i raddedigion o'r adran ym meysydd casinos a bingo, gan fod y meysydd hyn yn tyfu ar raddfa gyflymach na'r diwydiant cadw llyfrau. Er mai dyddiau cynnar ydyw hi, bellach mae fframwaith y cwrs wedi ei lunio a da o beth mi gredaf fuasai i ddarpar fyfyrwyr gael y wybodaeth fras yma er mwyn iddynt gael amser i bendroni'n ddifrifol dros eu cymhwysder ar gyfer y proffesiwn.

Er nad oes dim cytundebau wedi'u harwyddo eto, mae sibrydion y bydd cyn-jocis a pherchenogion cŵn a cheffylau yn chwarae rhan amlwg ar y staff tra bod aelod blaenllaw o'r *Sporting Chronicle*, mi glywaf, yn cael cynnig swydd prifathro. Cynnwys y flwyddyn gyntaf yn fras fydd arwain myfyrwyr yn raddol i mewn i'r pwnc drwy eu haddysgu'n gyffredinol yn elfennau ra... ceffylau. Fe gynnwys y gangen hon hyfforddiant mewn rhedeg siop fetio yn ogystal â sut i fynd ati i sefydlu 'pitch' ar y cwrs. Golyga hyn fod llawer o wybodaeth gyfreithiol yn angenrheidiol — cyfraith drwyddedol ymarferol.

Pwnc arall y bydd rhaid ei feistroli yn gynnar yn y flwyddyn gyntaf fydd 'tebygolrwydd' (probability) ac wrth gwrs mae defnydd helaeth o lyfr Manuel 'Fingers' Gallianno ar rwlét Americanaidd yn anhepgor yn y cyswllt yma. Dyma fydd beibl y myfyrwyr yn ystod y ddwy flynedd gyntaf. Gwneir gweddill y cwrs i fyny o astudiaeth ddechreuol ar unryw dri o'r pynciau dewis canlynol megis Milgwn Rhan I; Deis; Punto Blanco; Ceffylau Neidio Handicap; Peiriannau Ffrwythau; Y Pŵls Pêl-droed a chriced Rhan I; neu bapur dros ddeng mil o eiriau ar Blackjack.

Ni phenderfynwyd eto beth fydd cynnwys y ddwy flynedd ddiwethaf ond yn sicr bydd awdurdodau'r adran wedi dysgu o brofiad y flwyddyn arloesol a bydd darpariaeth drylwyr wedi ei gwneud pan ddaw'r amser. Dyma siawns ardderchog i ieuenctid a theuluoedd eangfrydig Cymry Cymraeg Caerdydd i fwrw prentisiaeth ar gyfer swydd tra hefyd yn mwynhau bywyd prifysgol. Gyda thripiau maes wedi eu trefnu yn ystod oriau hamdden y myfyriwyr i lefydd fel Caerloyw, Newton Abbot, Bath a Llwydlo gellid mentro na fydd y cwrs yn waith caled drwyddi draw a bydd siawns ar yr amryfal diwtorials i brofi cynhyrchion gwahanol fragdai cwrw iawn. A'r wobr ar ôl treulio tair blynedd yn yr adran — B.H.C. — sef baglor mewn hap — chwarae — ac ymhellach, sicrwydd swydd ddiddorol, os anghonfensiynol.

MOT LLYWELYN

## AMSERLEN

| | | |
|---|---|---|
| Dydd Sadwrn 25 Mehefin | | GŴYL IFAN (Manylion uchod) |
| Dydd Sadwrn 9 Gorffenaf | 11.00 | *Llanilltud Fawr: Y Sgwâr. |
| | 12.00 | St. Hilary: The Bush. |
| | 1.00 | Llancarfan: The Fox and Hounds. |
| | 2.00 | Aberddawan: The Blue Anchor. |
| | 4.00 | *Caerdydd: Heol y Frenhines. |
| Nos Iau 14 Gorffenaf | 7.30 | Llysfaen: Tŷ Mawr. |
| Nos Sadwrn 20 Awst | 7.00 | Hen Lanedeyrn: The Unicorn. |
| | 8.00 | Llanfihangel-y-fedw: Cefn Mabley. |
| | 9.00 | Llanbedr Gwentllwg: The Six Bells. |
| Dydd Llun 29 Awst | 11.00 | *Llanilltud Fawr: Y Sgwâr. |
| | 12.00 | Llancarfan: The Fox and Hounds. |
| | 1.00 | St. Hilary: The Bush. |
| | 2.30 | Aberddawan: The Blue Anchor. |
| | 3.30 | *Ynys y Barri: ar y rhodfa. |
| Dydd Sadwrn 24 Medi | 11.00 | *Caerdydd: Heol y Frenhines |
| | 12.00 | Sain Ffagan: The Plymouth Arms. |
| | 1.00 | Groes Faen: The Dynefor Arms. |
| | 2.30 | Meisgyn: The Miskin Arms. |
| | 3.30 | *Y Bontfaen: Stryd Fawr. |

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd. Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf, 134 Ffordd Parc Ninian, Caerdydd; ffôn: 28917.*
*Hysbysebu gan Gyhoeddiadau ap Dafydd Cyf, 55 Heol Eglwys Gadeiriol Isa, Caerdydd; ffôn: 396262.*